

Cofnod o gyfarfod goruchwylio Cynorthwy-ydd Personol - enghraifft

Enw'r Cynorthwy-ydd Personol: Carys Stevens	Dyddiad:
Enw'r Cyflogwr: Michael Davies	12 Ionawr 2015

Cynnydd gyda'r gwaith ers y cyfarfod goruchwylio diwethaf

Tasgau / Rolau'r swydd	Gwaith a gwblhawyd	Camau nesaf
Cefnogi gydag annibyniaeth yn y gymuned	Cefnogi Mike i adnabod a mynychu'r dosbarth cymunedol	Dysgu am ddsbarthiadau lleol eraill neu ddigwyddiadau o ddiddordeb
Cefnogaeth gyda gofal personol	Hyder wedi'i gynyddu wrth helpu gyda chael cawod, tacluso a gwisgo	Cefnogi Mike i gyflawni rhai tasgau gyda llai o gymorth
Agor llythyrau a didoli a chyfrinachedd	Agor llythyrau a'u ffeilio'n ddiogel. Deall pwysigrwydd cadw gwybodaeth yn gyfrinachol	Darparu cymorth i Mike i sicrhau y caiff biliau eu talu'n brydlon

Cyflawniadau ers y cyfarfod goruchwylio diwethaf

<p>Wedi cefnogi Mike i fagu hyder a pharatoi i fynd allan i ddsbarth lleol</p> <p>Mynychais hyfforddiant cymorth cyntaf a roddodd ragor o hyder i mi wybod beth i'w wneud</p>

Anawsterau neu broblemau ers y cyfarfod diwethaf. Camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'w datrys.

<p>Bu cadw at amser yn broblem. Trafodwyd pwysigrwydd cadw amser a'r effaith y mae cyrraedd yn hwyr yn ei chael ar Mike. Mae problemau gofal plant bellach wedi'u datrys ac mae cadw amser wedi gwella. Cytunwyd y bydd Carys yn ffonio Mike os bydd anawsterau'n codi. Cytunwyd i adolygu'r sefyllfa ymhen mis.</p> <p>Er bod ei bwriadau'n dda, bu Carys yn 'cymryd drosodd' wrth gefnogi Mike gyda gofal personol. Mae'n bwysig bod Carys yn gwrando ar gyfarwyddyd gan Mike o ran sut y dylid gwneud hyn a galluogi Mike i ymgymryd â thasgau'n annibynnol.</p>

Cynydd gyda chynlluniau dysgu ac unrhyw faterion y cytunwyd arnynt yn yr adolygiad blynyddol

Gweithgareddau penodol	Sut mae hyn wedi helpu'r Cynorthwy-ydd Personol i gyflawni'r tasgau?	A fu hyn o fudd i'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi?
Hyfforddiant Cymorth Cyntaf	Hyder a sgiliau wedi'u cynyddu	Yn teimlo'n fwy hyderus bod Carys yn gwybod beth i'w wneud os digwydd anaf neu salwch
Cysgodi Cynorthwy-ydd Personol arall i weld sut mae Mike yn hoffi i'w fwyd gael ei baratoi	Gwybodaeth a dealltwriaeth wedi'u cynyddu ynglŷn â pharatoi bwyd	Mae Carys yn paratoi'r bwyd rwyf yn ei fwynhau ac mae hi'n deall fy anghenion maethol yn well

Unrhyw faterion eraill a drafodwyd

Anghenion iechyd Carys ei hun a phwysigrwydd gofalu am ei hiechyd ei hun

Gwyliau – trafodwyd yr angen i gynllunio gwyliau neu amser i ffwrdd fel y gellir gwneud trefniadau ar gyfer cefnogaeth a chymorth o flaen llaw.

Llofnodwyd (Cynorthwy-yd Personol)....*Carys Stevens*.....

Llofnodwyd (Cyflogwr) *Michael Davies*

Adolygiad Blynyddol – pynciau a awgrymwyd

Crynhoi cyflawniadau neu anawsterau dros y flwyddyn a sut yr aethpwyd i'r afael â nhw.

Newidiadau y cytunwyd arnynt a ffyrdd o weithio ar gyfer y dyfodol

Rhagor o ddysgu neu hyfforddiant sy'n ofynnol